# PWYLLGOR CYNLLUNIO

## (O BELL TRWY TEAMS)

**Aelodau'n bresennol:** **Dydd Mawrth, 26 Mai 2020**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Aelod S.Paddison** |
| **Is-gadeirydd:** | **Aelod S.Pursey** |
| **Cynghorydd**: | C.J.Jones, D.Keogh, R.Mizen, S.K.Hunt, A.N.Woolcock, S.Renkes a/ac M.Protheroe |
| **Swyddogion yn bresennol:** | C.Griffiths, M.Shaw, S.Ball, T.Davies, R.MacGregor, A.Manchipp, C.Plowman, S.Blewett a/ac T.Davies |
| **Arsylwyr:** | Cynghorydd C.Edwards |

---

1. **GWNEUD CAIS AM YMWELIAD(AU) SAFLE GAN Y CEISIADAU A GYFLWYNWYD**

**PENDERFYNWYD:** Peidio â chynnal unrhyw ymweliadau safle ar y ceisiadau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor heddiw.

2. **TAFLEN DDIWYGIO**

**Sylwer:** Dosbarthwyd taflen ddiwygio mewn perthynas â chais rhif P2014/0083 cyn y cyfarfod, yr oedd y Cadeirydd wedi caniatáu amser digonol i Aelodau ei darllen. O ran yr eitemau cais ar yr agenda a gyhoeddwyd, rhoddodd y Cadeirydd ganiatâd i'w dosbarthu/hystyried ar frys yng nghyfarfod heddiw, am y rhesymau a'r amgylchiadau penodol nad oedd am oedi unrhyw geisiadau, ac er mwyn sicrhau bod Aelodau'n ystyried yr holl wybodaeth berthnasol cyn gwneud unrhyw benderfyniad yn y cyfarfod.

3. **CAIS RHIF P2014/0083 - HEOL Y GADWYN, GLYN-NEDD**

Rhoddodd y Swyddogion gyflwyniad i'r Pwyllgor Cynllunio ar y cais hwn (datblygiad preswyl arfaethedig ar gyfer hyd at 50 o anheddau, mynediad i'w benderfynu (amlinelliad) ar dir yn Chain Road, Glyn-nedd) fel a nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Roedd aelodau'r ward lleol, ac Aelod y ward gyfagos, yn bresennol i gyflwyno'u sylwadau yn y cyfarfod.

**PENDERFYNWYD:**

1. Yn unol ag argymhellion y swyddogion, gymeradwyo Cais Rhif P2014/0083 yn amodol ar y prif delerau, Cytundeb S106 a'r amodau a nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

2. Os nad yw'r Cytundeb S106 wedi'i lofnodi o fewn 3 mis i ddyddiad y penderfyniad hwn, gwrthodir y cais am y rheswm a nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

**CADEIRYDD**